# Tasg 2

**(Craidd, sbardun 3)**

**Gweithgaredd ar gyfer unigolion**

Dychmygwch eich bod chi'n gerflun byw ar y stryd.

Edrychwch yn ofalus ar beth sy'n digwydd o'ch cwmpas ar y stryd.
Sylwch ar rai o'r bobl – sut maen nhw'n edrych? Beth maen nhw'n ei wneud?
Oes rhai pobl yn dod i siarad â chi? Beth maen nhw'n ei ddweud?
Oes rhai pobl yn rhoi arian i chi? Faint?
Sut rydych chi'n teimlo, yn sefyll yn hollol lonydd ar y stryd o ddydd i ddydd – yng nghanol y gwynt a'r glaw efallai?
Am beth rydych chi'n meddwl?

Ysgrifennwch ddarn i ddisgrifio beth sy'n digwydd.